



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



21 Rhagfyr 2022

Ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i

Archwiliad o fetio, camymddwyn a chasineb at wragedd yn y gwasanaeth heddlu

Mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn amlygu lled a dyfnder y materion presennol sy'n ymwneud ag ymddygiad yr heddlu. Er nad oeddent yn rhan o'r archwiliad thematig hwn, archwiliwyd unedau fetio a gwrthlygredd Heddlu Dyfed-Powys fel rhan o weithgarwch 2021/22 PEEL. Derbyniodd yr Heddlu radd 'da' yn y maes hwn, ond maen nhw wedi derbyn yr holl argymhellion a meysydd i wella arnynt a nodir yn yr adroddiad diweddaraf hwn.

Fetio

Fel Comisiynydd, rwy'n hyderus bod safonau fetio'n uchel yn Heddlu Dyfed-Powys, a bod adolygiadau trylwyr yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl bersonél newydd posibl, boed y rheini'n aelodau staff, yn swyddogion, yn wirfoddolwyr neu'n drosglwyddedigion. Yr wyf wedi fy nghynghori bod y gwasanaeth yn disgwyl canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â fetio trosglwyddedigion, ond rwyf wedi fy sicrhau eu bod nhw'n cael eu hail-fetio'n llawn gan Heddlu Dyfed-Powys cyn eu bod nhw'n cael eu derbyn. Mae'r trylwyredd hwn a'r cynnydd o ran nifer a gyflwynir gan Ymgyrch Uplift yn golygu bod staff yr uned fetio'n ymdrin â baich gwaith hynod o drwm. O'r herwydd, mae gan Heddlu Dyfed-Powys garfan o bersonél y mae eu cliriad fetio angen ei adolygu. Fodd bynnag, yr wyf wedi fy sicrhau bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer mynd i'r afael â hyn nawr bod adnoddau mwy priodol o fewn yr uned.

Camymddwyn

Yn ddi-os, mae dryswch a diffyg cysondeb rhwng heddluoedd o ran gwneud penderfyniadau ynghylch achosion camymddwyn. Gellid ystyried bod newidiadau i reoliadau ar gyfer rhoi mwy o bwyslais ar ymarfer adlewyrchol ac annog dysgu'n bychanu ymddygiad amhriodol, yn ystod cyfnod pan nad yw nifer o gamweddau eraill yn cael eu goddef mewn cymdeithas (megis cam-drin gweithwyr brys). Fodd bynnag, rhaid peidio ag anwybyddu effaith sylweddol cyhuddiad o gamymddwyn ar bersonél yr heddlu chwaith. Gall ymarfer adlewyrchol fod yn ganlyniad cymesur, rhesymol a chymharol gyflym ar gyfer mân gamweddau, gan roi cyfle i'r unigolyn ddysgu o'i gamgymeriadau, newid ei ymddygiad a lleihau'r effaith ar ei ddyletswyddau.

Gall swyddogion neu aelodau staff sy'n cael eu hamau o gamymddwyn mwy difrifol gael eu hatal o'u dyletswyddau cyhyd â dwy flynedd tra bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal a phenderfyniadau'n cael eu gwneud. Dwy flynedd o ansicrwydd ar gyfer yr unigolyn, dwy flynedd o bryder ar gyfer unrhyw ddioddefwyr a dwy flynedd o gost heb ei gwireddu i'r trethdalwr. Ni all hyn barhau - mae angen i blismona ystyried dewis arall cadarn, cyson a chyflym yn lle'r model presennol neu flaenorol



yn ofalus er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno perygl i'r cyhoedd yn cael eu diswyddo'n effeithlon a bod y rhai sy'n addas i barhau yn y gwasanaeth yn dychwelyd i'w dyletswyddau cyn gynted â phosibl.

Casineb at Wragedd

O fewn yr adroddiad, dywedodd yr Arolygiaeth ei bod wedi canfod "*diwylliant heddlu sy'n gwella, ond sydd â phroblemau parhaus*". Mae hyn yn hynod siomedig, ond nid yw'n syndod. Mae aildiffinio diwylliant unrhyw sefydliad yn cymryd sawl blwyddyn i'w sicrhau. Gellid dadlau bod hyn yn fwy gwir byth o fewn strwythur cyffredin hierarchaidd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod pwysigrwydd ceisio mynd i'r afael â phryderon a chanfyddiadau'r gweithlu, ar ôl sefydlu gweithgor diwylliant yn ddiweddar i ddatblygu camau gweithredu y tynnwyd sylw atynt o fewn yr adroddiad hwn, yn ogystal â themâu a ddaeth i'r amlwg mewn seminarau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan yr Heddlu er mwyn i swyddogion a staff drafod y diwylliant mewnol maen nhw'n profi.

Mae'n hollbwysig bod swyddogion a staff yn medru herio ymddygiad amhriodol, ac mae'n galonogol i mi fod yr Heddlu'n darparu mecanwaith adrodd cyfrinachol drwy 'Afal Drwg' yn ogystal â thrwy 'Taclor Tacle'. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy i ymateb i'r rhai sy'n herio ymddygiad amhriodol a'u hamddiffyn os ydym mewn gwirionedd yn mynd i gael gweithlu agored a chyfartal.

Bydd fy swyddfa'n cymryd rhan lawn ym monitro cynnydd yn erbyn y gwaith hwn, a byddaf yn ceisio derbyn diweddariadau chwarterol gan y Prif Gwnstabl drwy fy nghyfarfodydd atebolrwydd. Mae cyfleoedd ar gyfer craffu ar faterion diwylliant yr heddlu ar y cyd hefyd yn cael eu harchwilio ar lefel Cymru gyfan drwy'r strwythur llywodraethu Plismona yng Nghymru.